# Adolygiad Blynyddol o Reolaethau ar Gynhyrchion Anifeiliaid a Fewnforir:

## Ebrill 2011 – Mawrth 2012

Mawrth 2013

Department for Environment Food & Rural Affairs

Department of Agriculture and Rural Development
www.dardni.gov.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Scottish Government

# Adolygiad Blynyddol o Reolaethau ar Gynhyrchion Anifeiliaid a Fewnforir:

## Ebrill 2011 – Mawrth 2012

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002).

Mawrth 2013 Llundain: Y Llyfrfa £6.25

© Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at:
Information Policy Team, The National Archives, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU
neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.defra.gov.uk/rural/forestry/panel-response/

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon/ y cyhoeddiad hwn atom yn:

Adam Graves
Imports and EU Trade Team,
Global Trade & Aquatic Health,
Food and Farming Group,
Area 5a, Fifth Floor, Nobel House,
Department for Environment, Food and Rural Affairs,
17 Smith Square,
London SW1P 3JR
Ffôn: 020 7238 4824
Ffacs: 020 7238 3087
E-bost: adam.graves@defra.gsi.gov.uk

PB13879W

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 2

2. Adolygiad o weithgareddau pob un o Adrannau'r Llywodraeth sy'n cael ei chyfarwyddo i atal clefydau rhag cael eu cyflwyno ... 4

3. Deddfwriaeth: pwerau ... 10

4. Deddfwriaeth: effeithiolrwydd ... 11

5. Camau gweithredu yn y dyfodol ... 12

Atodiad 1 – Ystadegau ar fewnforion o gynhyrchion anghyfreithlon ... 13

Atodiad 2 – Rhestr termau o dalfyriadau a byrfoddau a ddefnyddir yn gyffredin ... 18

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad

**1.1.1** Hwn yw'r degfed adolygiad blynyddol o reolaethau ar gynhyrchion anifeiliaid a fewnforir, a elwir hefyd yn Gynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid, i'r Deyrnas Unedig (y DU) yn unol ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002). Mae'n amlinellu'r datblygiadau yng ngweithgareddau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), y Gweinyddiaethau Datganoledig ac Adrannau ac Asiantaethau eraill y Llywodraeth yn 2011/12 i leihau'r risg o glefyd yn dod i mewn i'r DU drwy gynhyrchion anifeiliaid a fewnforir.

**1.1.2** Mae Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad gael ei lunio yn erbyn pum prif bennawd fel y'u nodir isod:

- adolygu holl weithgareddau'r Llywodraeth i ymdrin ag atal clefyd rhag cyrraedd Cymru a Lloegr drwy fewnforio cynhyrchion anifeiliaid;
- nodi mewnforion o'r fath a gweld a ydynt at ddefnydd personol neu fasnachol;
- asesu unrhyw orchmynion i'w gwneud o dan adran 10 o'r Ddeddf;
- asesu ei heffeithiolrwydd;
- cynnig y cyfryw gamau gweithredu pellach ag sy'n ofynnol i leihau'r risg o glefyd

## 1.2 Rolau a chyfrifoldebau

**1.2.1** Mae'r DU yn parhau i weithredu system o reolaethau llym ar gynhyrchion anifeiliaid a fewnforir yn gyfreithlon yn unol â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) a deddfwriaeth wladol. Dim ond drwy fannau archwilio dynodedig ar y ffin y gellir mewnforio cynhyrchion anifeiliaid o wledydd nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Yno, mae Milfeddyg Swyddogol yn cynnal archwiliadau milfeddygol arnynt er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag amodau mewnforio. Caiff pob llwyth ei archwilio o ran dogfennaeth a phrofion adnabod yn y man archwilio ar y ffin a chynhelir archwiliadau ffisegol a ragnodir yn unol â'r math o gynnyrch a gwlad tarddiad.

**1.2.2** Dim ond o'r gwledydd neu'r safleoedd cynhyrchu hynny nad ydynt yn rhan o'r UE ond sydd wedi cael eu hawdurdodi gan yr UE i fewnforio'r cynnyrch dan sylw y caniateir mewnforion. Mae awdurdodi o'r fath yn seiliedig ar warantau i'r UE ynglŷn ag iechyd anifeiliaid a safonau hylendid. Mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ar gyfer pob cynnyrch anifeiliaid a fewnforir i'w fwyta gan bobl oni bai ei fod yn llwyth personol neu'n gynhyrchion trwyddedig i'w blasu.

Mae deddfwriaeth yr UE yn caniatáu i ni gymryd camau diogelu priodol, a all gynnwys gwaharddiad ar gynhyrchion anifeiliaid a fewnforir sy'n deillio o rywogaethau sy'n agored i niwed o wlad gyfan neu ran o wlad, os bydd achos o glefyd yn debygol o achosi risg i iechyd pobl neu anifeiliaid.

**1.2.3** Mae Grŵp Gweithrediadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflawni swyddogaeth goruchwylio, archwilio a rhoi marciau iechyd ym mhob safle cig ffres trwyddedig domestig ym Mhrydain Fawr. Y milfeddyg swyddogol sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth filfeddygol mewn lladd-dai lladd a phrosesu. Pan fydd staff yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dod o hyd i gig mewn safleoedd torri cymeradwy yr amheuir iddo gael ei fewnforio'n anghyfreithlon hwy sydd â'r prif gyfrifoldeb a phwerau i ymdrin ag ef. Maent yn cyflwyno adroddiadau ar unrhyw gig o'r fath i Defra fel y gall gwybodaeth am gig a atafaelwyd gael ei rhannu rhwng pob asiantaeth orfodi.

**1.2.4** Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ffurfioli'r berthynas a'r cyfrifoldebau rhwng Defra, Llu Ffiniau'r DU, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol a'r gweinyddiaethau datganoledig.

**1.2.5** Mae Llu Ffiniau'r DU (a elwir yn Llu'r Ffiniau o hyn ymlaen) yn cyflawni'r rheolaethau gwrthsmyglo sy'n seiliedig ar risg er mwyn atal cynhyrchion anifeiliaid rhag cael eu mewnforio'n anghyfreithlon mewn mannau cyrraedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchion anifeiliaid sy'n torri'r rheolau sy'n gymwys i nwyddau a gludir ym magiau teithwyr at ddefnydd personol a llwythi personol a anfonir drwy'r post at unigolion preifat, yn ogystal â llwythi masnachol. Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARDNI) sy'n gyfrifol am reolaethau yng Ngogledd Iwerddon.

**1.2.6** Ar ddechrau'r flwyddyn roedd Llu'r Ffiniau yn rhan o Asiantaeth Ffiniau'r DU ond, yn weithredol o 1af Mawrth 2012, cafodd ei wahanu oddi wrth yr Asiantaeth a daeth yn uned rheoli gweithredol ar wahân yn y Swyddfa Gartref. Felly gall cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at Lu'r Ffiniau gyfeirio at weithgarwch a gyflawnwyd pan oedd Llu'r Ffiniau yn rhan o Asiantaeth Ffiniau'r DU ac nid y Swyddfa Gartref. Cadwodd Asiantaeth Ffiniau'r DU rai swyddogaethau megis cyfrifoldeb am ymchwiliadau troseddol o achosion y mae Llu'r Ffiniau yn eu cyfeirio atynt a chyhoeddusrwydd a chyfathrebu mewn perthynas â chynhyrchion anifeiliaid.

# 2. Adolygiad o weithgareddau pob un o Adrannau'r Llywodraeth sy'n cael ei chyfarwyddo i atal clefydau rhag cael eu cyflwyno

Dyma'r prif ddatblygiadau ers y rhai a nodwyd yr Adolygiad 2010/11:

## 2.1 Deall y risg

**2.1.1** Mae Defra yn parhau i fonitro ac asesu'r bygythiadau newydd o bob rhan o'r byd megis y sefyllfa o ran Clwy'r Traed a'r Genau sy'n datblygu yn y Dwyrain Canol a De-ddwyrain Asia yn ogystal â Chlwy Affricanaidd y Moch yn Rwsia a chlefydau newydd sy'n ymddangos, megis Schmallenberg, gan weithio gyda Llu Ffiniau'r DU a phartneriaid gorfodi eraill i sicrhau y caiff y gweithgarwch gorfodi ei dargedu at y risgiau cyfredol.

**2.1.2** Yn 2011/12 gwnaeth Defra gynnal a chyhoeddi 53 o Asesiadau Rhagarweiniol o Achosion ynglŷn â chlefydau megis Clefyd Affricanaidd y Ceffylau, Clwy Affricanaidd y Moch, Brwselosis, Clwy'r Traed a'r Genau, Llynmeirch, Ffliw Adar Pathogenig Iawn, Schmallenberg, Feirws Nîl y Gorllewin, a chlefydau ceffylaidd cyffredinol yn ystod y cyfnod cyn y Gemau Olympaidd. Ceir rhagor o wybodaeth yn http://www.defra.gov.uk/animal-diseases/monitoring/poa/

**2.1.3** Rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012 cyhoeddodd y DU 205 o hysbysiadau 'rhybudd' a 'gwybodaeth', drwy'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) neu Aelod-wladwriaethau eraill yr UE a gofyn iddynt gymryd camau ar frys, gan gynnwys pan gaiff cynhyrchion bwyd o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE ac sy'n torri gofynion diogelwch iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid eu gwrthod. Mae gan y CE weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod i wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE am broblemau sy'n effeithio ar fwyd. Mae'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn rhybuddio Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd ac Awdurdodau Lleol mewn porthladdoedd a meysydd awyr yn awtomatig er mwyn iddynt dargedu eu harchwiliadau o fwyd a fewnforir.

## Gorfodi

## 2.2 Newidiadau i'r ffordd y defnyddir Llu Ffiniau'r DU

**2.2.1** Cafwyd 11,095 o atafaeliadau o fis Ebrill 2011 hyd at fis Mawrth 2012, sef gostyngiad o ychydig dros 5,700 o atafaeliadau ers y llynedd.

**2.2.2** Rhoddodd Llu'r Ffiniau a Defra strategaeth ddiwygiedig ar waith yn ystod y flwyddyn. Newidiodd y ffocws o sicrhau targedau ar sail niferoedd i sicrhau y câi'r meysydd â'r risg fwyaf eu cwmpasu. Gweithiodd Tasglu'r Ffiniau gyda Defra i sicrhau yr aethpwyd i'r afael â'r risgiau â'r flaenoriaeth uchaf, gan ddatblygu cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar y cyd, a ymdriniodd â pherfformiad ac a ganolbwyntiodd ar gamau unioni yn y meysydd â'r risg fwyaf. Mae Defra a Llu'r Ffiniau yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a monitro perfformiad.

**2.2.3** Mae Llu'r Ffiniau yn parhau i dargedu ei ymdrechion ar sail asesiadau risg a wnaed gan arbenigwyr milfeddygol Defra. Mae'r asesiadau hyn yn categoreiddio gwledydd yn ôl nifer yr achosion o glefydau anifeiliaid a allai gael eu lledaenu drwy fewnforion anghyfreithlon a'r gwledydd a'r cynhyrchion sy'n achosi'r risg fwyaf. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau y caiff adnoddau Llu'r Ffiniau eu defnyddio ar gyfer y risgiau hysbys mwyaf.

**2.2.4** Mae'r rhan fwyaf o fewnforion anghyfreithlon a ganfyddir gan Lu'r Ffiniau yn symiau bach ac yn rhoddion fel arfer gan deithwyr sy'n ymweld â'u teuluoedd (neu sy'n dychwelyd ar ôl ymweld â'u teuluoedd dramor), neu'n nwyddau a atafaelir oddi wrth dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr sy'n teithio i'r DU am y tro cyntaf gyda'r bwydydd am achlysur arbennig neu fel 'blas o'r famwlad'. Nid yw'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â nwyddau sy'n cael eu smyglo'n fwriadol. Maent yn nwyddau a gludir gan deithwyr nad ydynt, er gwaethaf ein hymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn ymwybodol o'r rheolau a'r gwaharddiadau cyfredol sydd ar waith o ran cynhyrchion anifeiliaid a fewnforir.

**2.2.5** Nodir ystadegau ynglŷn â chyfanswm yr atafaeliadau yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd blaenorol (lle mae cofnodion ar gael) yn Atodiad 1.

**2.2.6** Yn sgil yr adolygiad o wariant, mae Llu Ffiniau'r DU wedi bod yn edrych yn feirniadol ar ffyrdd o foderneiddio'r gweithlu i sicrhau gwerth gorau am arian. Mae hyn wedi cynnwys datblygu gweithlu craidd mwy hyblyg, llai o faint, ynghyd â ffyrdd gwell a mwy arloesol o gyflawni rheolaethau gwrthsmyglu sy'n seiliedig ar risg. Er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno bu angen i Lu Ffiniau'r DU ailstrwythuro a chanolbwyntio eu hymdrechion o'r newydd yn ei holl weithgareddau. Mae hyn wedi cael effaith ar y lefel atafaelu yn ystod y flwyddyn ond efallai fod ffactorau eraill wedi cyfrannu gan gynnwys gwell cydymffurfiaeth â'r rheolau ymhlith teithwyr.

**2.2.7** Mae Llu'r Ffiniau, ynghyd â sefydliadau eraill y Llywodraeth, yn ymrwymedig i sicrhau gwerth gorau am arian o bob un o'i ffynonellau. Bydd dull gweithredu mwy hyblyg o ddefnyddio adnoddau a mwy o ddefnydd o gudd-wybodaeth yn allweddol i lwyddiant.

**2.2.8** Cyflogir staff rheng flaen Llu'r Ffiniau fel staff gwrthsmyglo amlswyddogaethol, sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â nifer o risgiau ar y ffiniau, gan gynnwys ymdrin â chynhyrchion anifeiliaid a fewnforir yn anghyfreithlon.

**2.2.9** Adleolir staff gorfodi ar sail symudol a hyblyg i gwmpasu pob man cyrraedd ac, mewn porthladdoedd a meysydd awyr mawr, cânt eu cefnogi gan y defnydd o dechnoleg pelydr-x a chŵn canfod sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ganfod cynhyrchion anifeiliaid. Caiff cŵn canfod eu defnyddio'n hyblyg mewn sianeli Tollau a mannau casglu bagiau yn unol â'r asesiadau risg diweddaraf. Mae cŵn canfod hefyd wedi gweithio mewn depos post ac mewn siediau nwyddau, neuaddau ceir a lonydd lori. Mae cŵn yn arbennig o lwyddiannus wrth nodi cynhyrchion anifeiliaid mewn bagiau ac maent wedi bod yn effeithiol o ran adolygu niferoedd mawr o deithwyr a'u bagiau yn gyflym.

**2.2.10** Yn ystod 2011/12 parhaodd Llu'r Ffiniau yn ymrwymedig i gymryd camau gorfodi effeithiol, cymesur, ar sail risg a chudd-wybodaeth i atal mewnforion anghyfreithlon. Caiff adnoddau eu targedu ar y llwybrau cyrraedd hynny sy'n achosi'r bygythiad mwyaf o gyflwyno clefydau anifeiliaid, gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion risg, gan gynnwys:

- yr holl gudd-wybodaeth sydd ar gael am fewnforion anghyfreithlon;
- map risgiau byd-eang a gaiff ei ddiweddaru'n barhaus, a gynhyrchir gan Defra, sy'n helpu i dargedu traffig o wledydd risg uchel a chynhyrchion risg uchel;
- data hanesyddol ar y mathau o gynhyrchion anifeiliaid a atafaelwyd, dulliau celu arferol, unrhyw dueddiadau eraill o ran risgiau;
- canlyniadau o archwiliadau gweithredol a gynhaliwyd gan Lu'r Ffiniau.

**2.2.11** Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol bod Defra a Llu'r Ffiniau yn parhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod Llu'r Ffiniau yn cyflawni strategaeth cyflawni a gorfodi effeithiol sy'n seiliedig ar risg. Mae Defra a Llu'r Ffiniau yn monitro'r asesiadau risg er mwyn iddynt allu ymateb yn hyblyg i batrymau o risg sy'n newid.

**2.2.12** Lle y bo'n briodol mae Llu'r Ffiniau yn ymateb i hysbysiadau clefyd penodol ac, o dan rai amgylchiadau, gall gyflwyno rheolaethau ychwanegol neu gynyddol, er enghraifft yn ystod yr achosion o glwy'r traed a'r genau ym Mwlgaria yn 2011. Gweithiodd Llu'r Ffiniau gyda Defra i gyflwyno mesurau dros dro i fonitro bagiau personol teithwyr er mwyn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chynhyrchion nas rheoleiddir yn dod i mewn i Brydain Fawr o ardaloedd o dan gyfyngiad.

**2.2.13** Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal (COPFS) yn yr Alban fydd yn penderfynu a ddylid dwyn achos am fewnforio'n anghyfreithlon ai peidio. Bydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn ymchwilio i achosion difrifol sy'n ymwneud â chynhyrchion anifeiliaid ac yn cyfeirio achosion at Wasanaeth Erlyn y Goron/CPOFS i'w hystyried lle y gall erlyn fod yn gymesur ac er budd y cyhoedd.

## 2.3 Twyll bwyd

**2.3.1** Mae cydweithredu i atal mewnforion anghyfreithlon hefyd yn cynorthwyo gweithgarwch gorfodi mewn meysydd eraill gan fod mewnforion anghyfreithlon yn rhan o fater ehangach Twyll Bwyd. Gall dod o hyd i achosion o dorri cyfraith bwyd mewn un maes yn aml arwain at ddod o hyd i achosion eraill o dor-cyfraith gan yr un cwmni/unigolyn ym maes cyfraith bwyd.

Mae Twyll Bwyd yn cynnwys gosod bwydydd ar y farchnad, er mwyn gwneud elw, a ddisgrifir yn anghywir neu y bwriedir iddynt fel arall dwyllo'r defnyddiwr. Mae'n cynnwys cyfnewid bwydydd ac amhuro bwydydd â chynhwysion rhatach, o safon is yn aml, a gwerthu bwydydd ac iddynt oblygiadau o ran iechyd y cyhoedd o bosibl, megis bwydydd nad ydynt yn addas i bobl eu bwyta neu sydd wedi'u halogi'n fwriadol.

Cangen Twyll Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am helpu awdurdodau lleol i ymchwilio i dwyll bwyd. Gall ymchwiliadau o'r fath yn aml ofyn am lawer o adnoddau ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnig nifer o adnoddau i'w cynorthwyo. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ariannol drwy wneud cais i'w Chronfa Ymladd, arbenigedd a phrofiad aelodau o'i Huned Cynghori ar Dwyll Bwyd, cudd-wybodaeth sy'n deillio o'i Chronfa Ddata Twyll Bwyd a hwyluso hyfforddiant i swyddogion gorfodi cyfraith bwyd drwy ei chwrs "Casglu Tystiolaeth a Sgiliau Cyfweld".

Yn ystod 2011/12 cymeradwyodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd naw cais gan awdurdodau lleol am gymorth ariannol o'i Chronfa Ymladd gwerth tua £155,500 i gyd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i ddatblygu ei Chronfa Ddata ar Dwyll Bwyd ac, o ganlyniad uniongyrchol i hynny, yn 2011 crëwyd 1,400 o gofnodion ar y system, cynnydd o 55% ers 2010. Mae'n bwysig bod y duedd hon yn parhau a bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn annog awdurdodau lleol, y diwydiant a defnyddwyr i anfon gwybodaeth am dwyll bwyd yn rheolaidd, ni waeth pa mor ddibwys y mae'n ymddangos. Drwy ddadansoddi set ddata sylweddol fwy mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gallu paratoi gwell cudd-wybodaeth, a thrwy hynny roi mwy o gymorth gydag ymchwiliadau awdurdodau lleol. At hynny, ar adeg pan fo cyfyngiadau cyllidebol, bu'r gudd-wybodaeth a baratowyd ganddynt yn amhrisiadwy i helpu awdurdodau lleol dargedu eu gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus.

**2.3.2** Ym mis Mawrth 2012 llwyddodd Bwrdeistref Wandsworth yn Llundain i erlyn masnachwr marchnad, a gafodd ei ddal gyda bwydydd a fewnforiwyd yn anghyfreithlon yn ei feddiant, gan gynnwys cig anifeiliaid gwyllt a chynhyrchion o rywogaethau mewn perygl. Darganfu'r swyddogion ymchwilio achos difrifol o bla cnofilod gyda baw llygod ar silffoedd bwyd, ar y llawr a'r tu mewn i gratiau bwyd. Cafodd y masnachwr 14 wythnos o garchar, a ataliwyd am 18 mis, ar ôl iddo gael ei gollfarnu o bedwar cyhuddiad a oedd yn ymwneud â diogelwch a hylendid (gorchmynnwyd iddo dalu £500 o gostau hefyd). Dechreuodd ymchwiliad Bwrdeistref Wandsworth, Llundain ar ôl cael cudd-wybodaeth gan dîm Twyll Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a oedd yn ei thro, wedi cael ei rhoi gan Asiantaeth Ffiniau'r DU (o ganlyniad i atafaeliadau a wnaed ym maes awyr Heathrow ym mis Mehefin a mis Awst 2010). Mae hon yn enghraifft bwysig o fanteision parhau â gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd cydgysylltiedig yn adrannau Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

**2.3.3** Mae cronfa ddata'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar y we o'r enw GRAIL (Canllawiau a Chyngor Rheoleiddiol ar Ddeddfwriaeth Mewnforion) yn parhau i gynnig i swyddogion gorfodi gronfa ddata gyfredol chwiliadwy o'r canlynol:

- Yr holl ganllawiau a deddfwriaeth ym maes bwydydd a fewnforiwyd sy'n ymwneud â chynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid a chynhyrchion pysgod a physgodfeydd;
- Crynodeb o reolaethau mewnforion ar gynhyrchion/gwledydd penodol;
- Rhestr o enwau cyswllt perthnasol;
- Dolenni gwe defnyddiol ar fwyd a fewnforiwyd.

Er mwyn cydnabod y ffaith mai cyfrifoldeb pob awdurdod lleol mewndirol yw gorfodi rheolaethau ar fwyd a fewnforiwyd, yn ogystal â'r rhai mewn mannau cyrraedd, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn annog pob swyddog gorfodi i gael mynediad at GRAIL – gweler https://grail.foodapps.co.uk/grail/general/home.aspx.

**2.3.4** Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant rhanbarthol ledled y DU a phecyn hyfforddi ar-lein er mwyn sicrhau bod swyddogion gorfodi, mewn porthladdoedd ac yn fewndirol, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a chanllawiau ymarferol ar weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd a fewnforiwyd. Diweddarwyd yr hyfforddiant hwn i lywio ac arwain swyddogion gorfodi mewn perthynas â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

## 2.4 Codi Ymwybyddiaeth

**2.4.1** Mae Defra wedi cydweithio ag adrannau eraill y Llywodraeth, megis y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, i ystyried y defnydd o gyfryngau cyfathrebu am ddim/rhad er mwyn parhau i helpu i godi ymwybyddiaeth teithwyr o'r rheolau ynglŷn â mewnforion personol o gynhyrchion anifeiliaid.

### Gwefan Directgov

**2.4.2** Mae canllawiau ar fewnforion wedi bod ar gael i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn ar wefan Defra. Tua diwedd 2011 dechreuwyd ar brosiect i drosglwyddo'r cynnwys i un Parth i'r Llywodraeth. Mae Defra yn parhau i sicrhau bod y cynnwys yn cael ei ddiweddaru a'i arddangos mewn man amlwg.

## Cyhoeddusrwydd Llu'r Ffiniau

**2.4.3** Darparwyd taflen a oedd yn crynhoi'r rheolau ynglŷn â mewnforio cynhyrchion anifeiliaid at ddiben personol, 'Bringing food products into the UK', ar gyfer teithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr. Cafodd y daflen ei hailfrandio yn 2010 ac mae'n dal i fod ar gael ar ffurf PDF ar wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU http://www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/travel-customs/bringing-food.pdf.

**2.4.4** Mae taflenni a phosteri yn dal i fod ar gael i deithwyr mewn nifer o ieithoedd. Mae sgriniau Arddangos Crisial Hylifol (sgriniau teledu) yn parhau i roi negeseuon i deithwyr mewn gwahanol borthladdoedd a meysydd awyr.

**2.4.5** Cafodd swyddogion Llu'r Ffiniau a chŵn canfod, sy'n gweithio i ganfod cynhyrchion anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon, sylw mewn cyfres newydd o 'Food Fighters' BBC1 a ddarlledwyd ym mis Gorffennaf 2011. Darlledwyd Nothing To Declare UK, a oedd yn edrych ar ymdrechion gorfodi gan gynnwys canfod cynhyrchion anifeiliaid, yn 2011 ar Sky Livingit ac mae'n parhau i gael ei hailddarlledu. Cafodd ein hymdrechion gorfodi, i atal cynhyrchion anifeiliaid rhag cael eu mewnforio'n anghyfreithlon, sylw yn y rhaglen 'UK Border Force' a ailddarlledwyd yn helaeth ar sianeli digidol Sky yn ystod y flwyddyn.

**2.4.6** Yn 2011 defnyddiodd Llu'r Ffiniau ddulliau cyfathrebu i addysgu a hysbysu darpar deithwyr am y cyfyngiadau ar ddod â chynhyrchion bwyd anghyfreithlon i'r DU cyn iddynt gyrraedd. Cafodd negeseuon eu cynnwys yn y daflen 'Your Stay in the UK' a rhoddwyd tua 900,000 i ymgeiswyr llwyddiannus am fisa i'r DU cyn iddynt deithio i'r DU. Cafodd posteri eu harddangos mewn swyddfeydd fisa dramor wedi'u hanelu at bobl o India, Pakistan, Nigeria, Bangladesh, Tsieina, Afghanistan, Zimbabwe, Iran, Sri Lanka, Jamaica, Ghana, Brazil, Malaysia a Mauritius.

**2.4.7** Mae gwefannau Directgov – http://www.direct.gov.uk/en/TravelAndTransport/Foreigntravel/BringinggoodsorcashintotheUK/DG_064942, sydd wedi'u targedu at y cyhoedd sy'n teithio, yn cynnwys dolenni o wefan Defra a gwefan Llu Ffiniau'r DU, ac mae Defra wedi gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad i hyrwyddo'r dolenni gwe perthnasol a chynnwys gwybodaeth am yr ymgyrch yn eu deunydd cyhoeddusrwydd.

Mae rhestr o 'Top Tips for Travellers' wedi'i chyhoeddi ar wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi'i hanelu at bobl sy'n mynd ar eu gwyliau. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth a rhybuddion am gyfyngiadau ar fewnforion personol o gynhyrchion anifeiliaid y gallwch ddod â hwy i mewn i'r DU o'r tu allan i'r UE.

## Cyhoeddusrwydd DARDNI

**2.4.8** Mae DARDNI wedi parhau i godi proffil y bygythiad sy'n gysylltiedig â chyflwyno clefydau o gynhyrchion anifeiliaid mewn sawl ffordd. Mae taflenni wedi'u diweddaru wedi cael eu cynhyrchu i adlewyrchu'r newidiadau mewn rheolau mewnforio personol, gan roi gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n teithio ynghylch pa gynhyrchion anifeiliaid y gellir dod â hwy yn ôl i Ogledd Iwerddon a pha rai na ellir dod â hwy. Caiff posteri eu harddangos mewn mannau cyrraedd sy'n rhoi gwybodaeth am y rheolau ynglŷn â mewnforion personol o gynhyrchion anifeiliaid.

**2.4.9** Mae gwyliadwriaeth weithredol y tu hwnt i chwiliadau sy'n seiliedig ar risg drwy holi teithwyr yn parhau i godi ymwybyddiaeth. Cafodd DARDNI gyfle i godi ymwybyddiaeth drwy ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol hefyd.

**2.4.10** Mae datganiadau i'r wasg wedi cael eu cyhoeddi yn atgoffa'r cyhoedd am beidio â dod â chynhyrchion anifeiliaid anghyfreithlon yn ôl wrth ddychwelyd o'u gwyliau ac yn rhoi gwybod am newidiadau i'r rheolau ynglŷn â mewnforion personol. Mae cyngor sydd wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar hefyd wedi cael ei roi ar wefan DARDNI ac ar wefan NI Direct (gwefan swyddogol y Llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon).

## 2.5 Cynnwys cwsmeriaid

**2.5.1** Crëwyd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd i Loegr. Am y tro cyntaf bydd pobl yr effeithir arnynt gan bolisi'r Llywodraeth ynglŷn ag iechyd a lles anifeiliaid yn gallu gwneud argymhellion ynglŷn â'r polisïau hynny'n uniongyrchol i Weinidogion. Crëwyd y bwrdd newydd, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar Gyfrifoldeb a Rhannu Costau o dan gadeiryddiaeth Rosemary Radcliffe, a gyhoeddodd ganfyddiadau ei waith ynghylch sut y gall ceidwaid anifeiliaid chwarae mwy o rôl i fynd i'r afael â chlefyd anifeiliaid.

Mae'r Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid sy'n rhan o Defra yn cynnwys tua 12 o aelodau. Mae'n dwyn arbenigwyr – gan gynnwys ffermwyr, milfeddygon, arbenigwyr lles ac eraill o'r tu allan i'r Llywodraeth – ynghyd â Nigel Gibbens, y Prif Swyddog Milfeddygol, a gweision sifil, i wneud argymhellion polisi uniongyrchol ynglŷn â pholisi sy'n effeithio ar iechyd a lles pob anifail a gedwir, megis anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes. Erys penderfyniadau terfynol ar bolisi iechyd a lles anifeiliaid yn nwylo Gweinidogion y Llywodraeth.

Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- Pennu blaenoriaethau polisi;
- Datblygu polisïau allweddol a sut y dylent gael eu hariannu;
- Asesu'r risg o fygythiadau o glefyd anifeiliaid a sut y dylid eu rheoli;
- Penderfynu ar flaenoriaethau gwyliadwriaeth ac ymchwil;
- Adolygu a datblygu cynlluniau wrth gefn i ymdrin ag achosion newydd o glefyd;
- Ystyried pa systemau codi tâl y dylid eu cyflwyno, os o gwbl.

# 3. Deddfwriaeth: pwerau

O 25 Mai 2011 disodlwyd Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Lloegr) 2006, Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr) 2006 a Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 gan Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 yn Lloegr. Ni fydd amodau mewnforion cynhyrchion anifeiliaid na’r rheolaethau arnynt yn newid yn sgil cyflwyno’r Rheoliadau newydd hyn ond bydd y Rheoliadau yn diweddaru cyfeiriadau at reolau’r UE ac yn symleiddio’r ddeddfwriaeth ar gyfer swyddogion gorfodi. Mae deddfwriaeth debyg wedi cael ei chyflwyno gan y Gweinyddiaethau Datganoledig mewn rhannau eraill o’r DU.

# 4. Deddfwriaeth: effeithiolrwydd

Ni fu unrhyw ddatblygiadau pellach ers y rhai a nodwyd ym mharagraff 2.6.1 yn Adolygiad 2010/11.

# 5. Camau gweithredu yn y dyfodol

## Camau gweithredu'r Llywodraeth

**5.1.1** Bydd Defra yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol a Chyllid a Thollau EM er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r UE a Phrydain Fawr ynglŷn â mewnforio cynhyrchion anifeiliaid yn fasnachol o'r tu allan i'r UE drwy fannau archwilio ar y ffin. At hynny, caiff rheolaethau mewnforio eu hadolygu gan Fwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr.

**5.1.2** O ran cudd-wybodaeth bydd Llu'r Ffiniau a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn atgyfnerthu a datblygu cysylltiadau, er enghraifft, drwy gynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth.

## Deall y risg

**5.1.3** Bydd Defra yn parhau i fonitro'r sefyllfa ryngwladol o ran clefydau, gan baratoi asesiadau yn ôl yr angen er mwyn helpu i lywio gweithgarwch gorfodi.

Er mwyn cynorthwyo gyda chudd-wybodaeth a'r darlun o risg bydd Llu'r Ffiniau yn monitro lefelau atafaelu drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag y flaenoriaeth yw sicrhau ei fod yn defnyddio staff mewn ardaloedd lle ceir y risg fwyaf.

## Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd

**5.1.4** Bydd Defra, Llu'r Ffiniau, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Asiantaeth Ffiniau'r DU a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn parhau i gydweithio'n agos ymhob rhan o'r Llywodraeth yn y maes hwn.

**5.1.5** Mae Defra yn bwriadu tynnu sylw at y risgiau posibl i'r DU os bydd pobl yn dod â bwyd i mewn i'r wlad, drwy dargedu'r cyfryngau megis atodiadau teithio mewn papurau newydd penwythnosol a chylchgronau teithio misol. Er mwyn targedu cynulleidfaoedd eraill sy'n teithio bydd rhaglen gyfathrebu yn targedu'r cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau arbenigol i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

## Cydweithredu rhyngwladol a chyfnewid gwybodaeth

**5.1.6** Bydd Defra a Llu'r Ffiniau yn parhau i gefnogi pob ymdrech i annog mwy o gydweithredu rhwng y tollau ac awdurdodau milfeddygol yn Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Bydd Llu'r Ffiniau yn ceisio cyfleoedd i hwyluso'r broses o gyfnewid cudd-wybodaeth a gwybodaeth arall am risgiau er mwyn canfod mewnforion anghyfreithlon.

**5.1.7** Bydd Defra yn parhau i weithio gyda'r UE ac yn rhyngwladol i ddylanwadu ar Aelod-wladwriaethau eraill yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE a lleihau'r risg y caiff clefydau eu cyflwyno i'r DU.

## Gweithio mewn partneriaeth â chwsmeriaid

**5.1.8** Bydd Defra yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid i helpu i ddatblygu ei pholisïau.

**5.1.9** Bydd pob partner gorfodi yn adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol ac yn ei adolygu fel y bo'n briodol.

**5.1.10** Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a phartneriaid cyflawni i leihau'r beichiau ar fewnforwyr yn sgîl yr adroddiad rhag-gyllidebol ar hwyluso masnach.

# Atodiad 1 – Ystadegau ar fewnforion o gynhyrchion anghyfreithlon

## Cefndir

Nodir ystadegau ynglŷn â chyfanswm yr atafaeliadau o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd blaenorol (lle mae cofnodion ar gael) yn yr Atodiad hwn.

At ddibenion yr ystadegau hyn cyfeiria "anghyfreithlon" at gynhyrchion anifeiliaid a atafaelwyd fel eitemau oddi wrth unigolion sy'n torri'r meintiau personol a ganiateir neu lwythi masnachol sydd wedi ceisio osgoi'r gweithdrefnau cywir drwy beidio â datgan nwyddau mewn man archwilio ar y ffin. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn cynnwys eitemau a ildiwyd yn wirfoddol gan deithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr.

Dengys Tablau 1 a 2 nifer yr atafaeliadau gan Lu'r Ffiniau mewn mannau cyrraedd, eu pwysau a'u cyfaint (a chan staff a ariannwyd gan Defra tan 11 Ebrill 2003), atafaeliadau gan DARDNI mewn mannau cyrraedd yng Ngogledd Iwerddon ac atafaeliadau gan awdurdodau lleol mewndirol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd.

Ar adegau caiff mwy nag un cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid ei atafaelu ar yr un pryd (e.e. cig, pysgod, cynnyrch llaeth a mêl). Cyfeirir at hyn fel 'atafaeliad lluosog'. Hyd at 31 Mawrth 2006 (gweler Tablau 3a a 3b), cofnodwyd hyn fel un atafaeliad yn unig yn ôl y cynnyrch â'r pwysau mwyaf, er bod pwysau'r cynhyrchion eraill a atafaelwyd wedi'u cynnwys yn y pwysau a gofnodwyd ar gyfer y categori hwnnw. Fodd bynnag, mae nifer yr atafaeliadau yn ôl cynnyrch ar gyfer 2006/07 ac yn y blynyddoedd dilynol yn Nhablau 3c a 3d yn adlewyrchu sawl gwaith y cafodd pob cynnyrch ei atafaelu, gan gynnwys y rhai mewn 'atafaeliadau lluosog'. Golyga hyn y bydd cyfanswm nifer yr atafaeliadau ar gyfer pob un o'r pedwar categori o gynnyrch yn uwch na chyfanswm cyffredinol yr atafaeliadau ar gyfer y blynyddoedd hynny. Fodd bynnag, mae modd cymharu cyfanswm nifer yr atafaeliadau'n uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol o hyd (gweler Tabl 1).

### Tabl 1: Cyfanswm nifer yr atafaeliadau o gynnyrch anifeiliaid a'u pwysau (2001-2012) a chyfeintiau (2006-2012)

| Cyfnod | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Cyf (litrau) |
|---|---|---|---|
| 01/04/01-31/03/02 | 2,053 | 114,790 | Dd/H |
| 01/04/02-31/03/03 | 7,819 | 109,211 | Dd/H |
| 01/04/03-31/03/04 | 15,838 | 185,889 | Dd/H |
| 01/04/04-31/03/05 | 25,610 | 220,155 | Dd/H |
| 01/04/05-31/03/06 | 32,795 | 272,121 | Dd/H |
| 01/04/06-31/03/07 | 35,001 | 239,773 | 63,165 |
| 01/04/07-31/03/08 | 24,956 | 183,483 | 12,463 |
| 01/04/08-31/03/09 | 20,660 | 191,937 | 16,405 |
| 01/04/09-31/03/10 | 21,267 | 163,013 | 1,467 |
| 01/04/10-31/03/11 | 16,828* | 140,433 | 794 |
| 01/04/11-31/03/12 | 10,537** | 79,277 | Dd/H |

**O'r nifer hwn roedd tua 4% wedi'u gwneud mewn nwyddau a gludir yn fasnachol a llwythi llong. Mae'r atafaeliadau hyn yn cyfrif am tua 55% o gyfanswm pwysau atafaeliadau, a thua 95% o gyfanswm cyfaint atafaeliadau

**Mae atafaelu nwyddau a gludir yn fasnachol yn cyfrif am 5.5% o'r cyfanswm a atafaelwyd

## Tabl 2: Sawl gwaith yr atafaelwyd cynhyrchion anifeiliaid (crynodeb), eu pwysau a'u cyfaint yn ôl rhanbarth (2011-2012)

| Enw'r Rhanbarth | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Cyf (litrau |
|---|---|---|---|
| 1 Dwyrain Ewrop | 999 | 4,047 | Dd/H |
| 2 Dwyrain Affrica | 189 | 2,768 | Dd/H |
| 3 Gogledd Affrica | 104 | 317 | Dd/H |
| 4 Canol Affrica | 52 | 461 | Dd/H |
| 5 Deheubarth Affrica | 151 | 491 | Dd/H |
| 6 Gorllewin Affrica | 571 | 12,357 | Dd/H |
| 7 Gogledd America | 290 | 4,173 | Dd/H |
| 8 Y Caribî | 168 | 2,290 | Dd/H |
| 9 Canol a De America | 74 | 409 | Dd/H |
| 10 Dwyrain Asia | 1,752 | 17,052 | Dd/H |
| 11 De Asia | 1,740 | 7,194 | Dd/H |
| 12 De-ddwyrain Asia | 44 | 99 | Dd/H |
| 13 Dwyrain Agos a Dwyrain Canol | 1,486 | 7,135 | Dd/H |
| 14 Ynysoedd y De | 25 | 2,758 | Dd/H |
| 15 Ewrop | 2 | 3 | Dd/H |
| 16 Anhysbys | 3,448 | 17,723 | Dd/H |
| **Cyfansymiau** | **11,095** | **79,277** | **Dd/H** |

## Tabl 3a: Cynhyrchion anifeiliaid a atafaelwyd, gan gynnwys pwysau, yn ôl cynnyrch (2001-2003) – yr hen fformat cofnodi

| | Cig | | Pysgod | | Cynnyrch Llaeth | | Atafaelu Lluosog | | Arall | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) |
| 01/04/01-31/03/02 | 1,242 | 18,955 | 353 | 32,691 | 63 | 3,784 | 361 | 55,791 | 34 | 3,569 |
| 01/04/02-31/03/03 | 2,986 | 31,301 | 1,837 | 21,267 | 759 | 19,807 | 2,172 | 36,170 | 65 | 666 |

## Tabl 3b: Cynhyrchion anifeiliaid a atafaelwyd, gan gynnwys pwysau, yn ôl cynnyrch (2003-2006) – yr hen fformat cofnodi

| | Cig | | Pysgod | | Cynnyrch Llaeth | | Mêl | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) | Nifer yr atafaeliadau | Pwysau (kg) |
| 01/04/03-31/03/04 | 6,810 | 72,734 | 5,325 | 76,179 | 3,168 | 28,052 | 535 | 8,924 |
| 01/04/04-31/03/05 | 10,987 | 78,664 | 8,322 | 85,757 | 5,127 | 40,685 | 1,174 | 15,049 |
| 01/04/05-31/03/06 | 14,826 | 106,135 | 9,740 | 100,840 | 6,759 | 48,011 | 1,470 | 17,135 |

## Tabl 3c: Sawl gwaith yr atafaelwyd Cynhyrchion Anifeiliaid, gan gynnwys pwysau a chyfaint, yn ôl cynnyrch (2006-2012) – y fformat cofnodi newydd

| | Cig | | | Pysgod | | | Cynnyrch Llaeth | | | Mêl | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod** | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | Pwysau (kg) | Cyf (litrau) | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | Pwysau (kg) | Cyf (litrau) | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | Pwysau (kg) | Cyf (litrau) | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | Pwysau (kg) | Cyf (litrau) |
| 01/04/06-31/03/07 | 19,254 | 90,326.72 | 20,867.00 | 10,644 | 65,545.11 | | 10,231 | 67,717.64 | 42,298.08 | 2,029 | 16,183.86 | |
| 01/04/07-31/03/08 | 14,158 | 76,718.40 | | 7,140 | 47,030.44 | | 7,196 | 48,232.96 | 12,462.81 | 1,487 | 11,501.38 | |
| 01/04/08-31/03/09 | 11,356 | 76,903 | | 5,673 | 52,991 | | 6,304 | 53,372 | 16,405 | 1,332 | 8,671 | |
| 01/04/09-31/03/10 | 12,943 | 87,714 | | 942 | 22,156 | | 9,108 | 47,260 | 1,467 | 657 | 5,883 | |
| 01/04/10-31/03/11 | 10,186 | 42,987 | | 290 | 22,933 | | 7,640 | 68,167 | 794 | 347 | 6,346 | |
| 01/04/11-31/03/12 | 6,246 | 31,291 | | 189 | 12,532 | | 4,381 | 27,588 | | 279 | 7,866 | |

## Tabl 3d: Sawl gwaith yr atafaelwyd cynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys pwysau a chyfaint, yn ôl rhanbarth (2011-2012)

| Enw'r Rhanbarth | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu, Pwysau (kg) a Chyf (litrau) | Cig | Pysgod | Cynnyrch Llaeth | Mêl | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Dwyrain Ewrop | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 675 | 2 | 294 | 28 | 999 |
| | Pwysau (kg) | 2,697 | 5 | 1,216 | 129 | 4,047 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 2 Dwyrain Affrica | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 75 | 3 | 91 | 20 | 189 |
| | Pwysau (kg) | 318 | 51 | 304 | 2,095 | 2,768 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 3 Gogledd Affrica | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 79 | 0 | 24 | 1 | 104 |
| | Pwysau (kg) | 268 | 0 | 45 | 4 | 317 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 4 Canol Affrica | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 35 | 10 | 5 | 2 | 52 |
| | Pwysau (kg) | 226 | 209 | 20 | 6 | 461 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 5 Deheubarth Affrica | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 138 | 3 | 9 | 1 | 151 |
| | Pwysau (kg) | 382 | 44 | 59 | 6 | 491 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 6 Gorllewin Affrica | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 354 | 59 | 144 | 14 | 571 |
| | Pwysau (kg) | 2,974 | 4,313 | 4,719 | 351 | 12,357 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 7 Gogledd America | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 182 | 3 | 99 | 6 | 290 |
| | Pwysau (kg) | 276 | 212 | 3,444 | 241 | 4,173 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 8 Y Caribî | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 135 | 3 | 25 | 5 | 168 |
| | Pwysau (kg) | 1,009 | 536 | 675 | 70 | 2,290 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 9 Canol a De America | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 35 | 0 | 37 | 2 | 74 |
| | Pwysau (kg) | 294 | 0 | 111 | 4 | 409 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |

| Enw’r Rhanbarth | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu, Pwysau (kg) a Chyf (litrau) | Cig | Pysgod | Cynnyrch Llaeth | Mêl | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 Dwyrain Asia | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 1,571 | 24 | 147 | 10 | 1,752 |
| | Pwysau (kg) | 12,351 | 3,076 | 1,507 | 118 | 17,052 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 11 De Asia | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 497 | 27 | 1,202 | 14 | 1,740 |
| | Pwysau (kg) | 1,931 | 665 | 4,385 | 213 | 7,194 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 12 De-ddwyrain Asia | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 33 | 0 | 11 | 0 | 44 |
| | Pwysau (kg) | 76 | 0 | 23 | 0 | 99 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 13 Dwyrain Agos a Dwyrain Canol | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 551 | 13 | 823 | 99 | 1,486 |
| | Pwysau (kg) | 2,071 | 124 | 4,370 | 570 | 7,135 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 14 Ynysoedd y De | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 12 | 1 | 9 | 3 | 25 |
| | Pwysau (kg) | 112 | 803 | 246 | 1,597 | 2,758 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 15 Europ | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| | Pwysau (kg) | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| 16 Anhysbys | Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu | 1,874 | 41 | 1,459 | 74 | 3,448 |
| | Pwysau (kg) | 6,305 | 2,495 | 6,461 | 2,462 | 17,723 |
| | Cyf (litrau) | | | | | |
| **Cyfansymiau** | **Sawl gwaith y cawsant eu hatafaelu** | **6,246** | **189** | **4,381** | **279** | **11,095** |
| **Cyfansymiau** | **Pwysau (kg)** | **31,290** | **12,533** | **27,588** | **7,866** | **79,277** |
| **Cyfansymiau** | **Cyf (litrau)** | | | | | |

# Atodiad 2 – Rhestr termau o dalfyriadau a byrfoddau a ddefnyddir yn gyffredin

| | |
|---|---|
| ALlau | Awdurdodau Lleol |
| ASF | Clwy Affricanaidd y Moch |
| AHVLA | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol |
| BIP(s) | Man Archwilio ar y Ffin |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| COPFS | Swyddfa’r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CThEM | Cyllid a Thollau EM |
| DARDNI | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon |
| DAs | Gweinyddiaethau Datganoledig |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| FCO | Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad |
| FFDB | Cronfa Ddata Twyll Bwyd |
| FMD | Clwy’r Traed a’r Genau |
| FSA | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| GB | Prydain Fawr |
| GRAIL | Canllawiau a Chyngor Rheoleiddiol ar Ddeddfwriaeth Mewnforion |
| NI | Gogledd Iwerddon |
| OVS | Milfeddygon Swyddogol |
| PHAs | Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd |
| POA(s) | Asesiad(au) Rhagarweiniol o Achosion |
| POAO | Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid |
| RASFF | System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeilaid |
| SLA | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UKBF | Llu Ffiniau’r Deyrnas Unedig |

TSO
information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (y Llyfrfa) ac mae ar gael:

**Ar-lein yn**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion drwy Linell Gymorth Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion drwy'r ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siop Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion drwy'r ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantaethau Achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-851202-5

9 780108 512025